

Bwletin Awdurdod S4C Rhagfyr 2000

Cyfarfod Agored

Fe gynhaliodd yr Awdurdod Gyfarfod Agored ar nos Iau, 23 Tachwedd 2000, yn Neuadd Llanofor, Treganna, Caerdydd lle bu oddeutu 50 o'r cyhoedd yn bresennol.

Yn ogystal â Chadeirydd yr Awdurdod, Elan Closs Stephens, bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Huw Eirug, yn cymryd rhan yn y drafodaeth hefyd. Roedd Aelodau eraill yr Awdurdod hefyd yn bresennol i wrando ar y drafodaeth ac i gael sgwrs anffurfiol â'r cyhoedd cyn ac ar ôl y cyfarfod. Ymhlith y materion a drafodwyd yn y cyfarfod oedd:

Gweledigaeth ar gyfer y Sianel Ddigidol

Holodd aelod o'r gynulleidfa beth oedd gweledigaeth S4C ar gyfer S4C Digidol. Ai i gynnig amrediad o raglenni ar gyfer sbectrwem helaeth o bobl yn y Gymraeg ydoedd? Atebodd Huw Jones ei fod yn amlwg mai rhan allweddol o swyddogaeth S4C oedd adlewyrchu a chyfoethogi bywyd Cymru heddiw. Tybiwyd ei fod hefyd yn rhan hanfodol o swyddogaeth S4C i fod yn rhan o'r broses o greu cyfoeth diwylliannol yn y Gymru gyfoes. Roedd gweithgarwch creadigol ar ffurf drama neu adloniant neu beth bynnag yn rhan o'r broses o greu ac o ail-greu y diwylliant Cymraeg cyfoes a chredwyd ei fod yn rhan o swyddogaeth S4C i ganiatáu i bobl greadigol a thalentog gyfrannu at y weledigaeth honno. Tra roedd sianeli digidol Saesneg yn gallu penderfynu apelio at un grwp o bobl yn unig, nid oedd S4C yn gallu gwneud hynny. Roedd yn rhaid iddi geisio apelio at bawb ym mhob ran o Gymru. Roedd hynny'n golygu amrediad mwy eang o gynnwys ac agwedd mwy agored i syniadau o bob math.

Safonau Rhaglenni

Holwyd pa wahaniaeth roedd S4C yn ei weld yn safon ei rhaglenni i gymharu â phan ddechreuodd y Sianel 18 mlynedd yn ôl. Atebodd Elan Closs Stephens ei bod hi'n credu bod yna rai pethau o'r dechrau megis cyfraniad y BBC wedi bod yn gyson o ran ansawdd, ac yr oedd yna rai cynhyrchwyr annibynnol oedd gyda phrofiad helaeth o greu rhaglenni; roedd HTV hefyd yn gonglfaen. Er hynny, wrth edrych yn ôl ar y rhaglenni cynnar roedd yna rai ohonynt oedd hi'n tybio na fyddai yn dymuno'u gweld wrth i'r byd teledu aeddfedu yng Nghymru. Wedi dweud hynny, dylid cydnabod bod ymestyn y gwasanaeth i 12 awr y diwrnod heb os wedi rhoi straen ariannol ar y cwmnïau annibynnol ac ar S4C mewn pob math o ffordd. Nid oedd yn bosibl i wneud i arian 4 awr a hanner ymestyn dros 12 awr yn yr un ffordd a roedd rhaid cydnabod fod yna ddarnau gwanach na'u gilydd yng ngwasanaeth y Sianel. Credwyd bod hyn yn anochel ond, ar y llaw arall, roedd yna ddarnau arbennig o dda gan y Sianel i'w cynnig hefyd fyddai'n gwneud i bobl aros gyda hi a'i gwerthfawrogi.

Roedd Huw Jones o'r farn bod y gwasanaeth roedd S4C yn ei gynnig heddiw yn llawer iawn cyfoethocach nag oedd yn yr wythdegau. Awgrymodd pe bae rhywun yn cymharu unrhyw un wythnos o gyfnod canol yr wythdegau gydag unrhyw un wythnos nawr y byddai yn gweld, ar wahân i un maes, fod rhaglenni heddiwystal os nad gwell. Roedd yna fwy o raglenni o wahanol fathau yn cael eu cynnig nawr. Yn arbennig, teimlwyd fod safon y dramâu roedd S4C yn eu darlledu y dyddiau yma yn rhywbeth y gellid ymfalchio ynddi.

Y Cynulliad Cenedlaethol

Dywedodd aelod o'r gynulleidfa fod yna lawer rheswm i longyfarch S4C o ran y rhaglenni roedd yn eu darlledu yn ymwneud â'r Cynulliad. Credwyd fod *Maniffesto* yn arbennig o dda, fel ag yr oedd y *Newyddion* ac yr oedd yna genhedlaeth ifanc o newyddiadurwyr oedd yn rhagorol yn eu mynegiant ac yn drwyadl iawn eu gwaith. Er hynny, teimlwyd fod yna agweddau cyfan o fywyd y Cynulliad oedd byth bron yn cyrraedd ymwybyddiaeth y cyhoedd. Yr oeddynt yn faterion a allai fod yn gymhleth a sych ond yn bwysig er hynny. Rhoddwyd fel esiamplau rheoliadau ac addysg arbennig i blant sy'n effeithio ar blant Cymraeg; ac addysg rhyw yn yr ysgolion. Roedd yna bryder hefyd nad oedd ymwneud y Cynulliad â'r sector gwirfoddol yn cael digon o sylw chwaith. Roedd yna ganfyddiad bod ymwybyddiaeth pobl mewn cymunedau ledled Cymru ynglyn â beth oedd yn mynd ymlaen yn y Cynulliad yn wirioneddol brin.

Wrth ymateb i'r pwyntiau uchod dywedodd Huw Jones fod hwn yn bwnc anodd. Cychwynnodd ei ateb drwy sôn mai Cymru oedd yr unig wlad o ystyried yr Ynysoedd Prydeinig oedd yn darlledu yn fyw weithgareddau Cynulliad neu Senedd fel yn yr Alban. Roedd S4C yn gwneud hynny drwy gyfrwng S4C2 ac roedd y Sianel yn credu fod yna werthfawrogiad o'r gwasanaeth hwn. Wedi dweud hynny, anaml y byddai'r mwyafrif o wylwyr yn troi at y gwasanaeth oni bai fod yna bwnc penodol o ddiddordeb iddynt. Nid oedd yna ateb hawdd i'r pwyntiau uchod, er hynny, oherwydd fod gan ddarlledwyr y dilema o gystadlu am wylwyr yng nghanol môr o raglenni atyniadol eraill. Roedd yr hyn oedd wedi digwydd gyda ITV a'r BBC yn newid amseroedd eu newyddion yn adlewyrchiad o'r dilema hwn. Ni ddylid gweld bai ar newyddiadurwyr felly am geisio mynd ar ôl materion gyda mwy o liw iddynt.

Safon Iaith

Cododd aelod o'r gynulleidfa'r pwnc o safon yr iaith ar S4C. Teimlwyd nad oedd gan pobl sydd yn dysgu'r iaith le i fynd ato i'w gwella a chredwyd taw un fantais o gael sianel Gymraeg yn y lle cyntaf oedd fod yna le i bobl fynd i glywed iaith gywir, bur.

Atebodd Elan Closs Stephen ei fod yn wir fod hwn wedi bod yn bwnc trafod dros y cwpl o flynyddoedd diwethaf a dywedodd ei bod hi'n credu y byddai pawb yn bresennol yn y cyfarfod yn rhannu'r bwriad o greu iaith gywir ond ystwyth. Er hynny, credwyd bod yna gyfle i amrywio cyweirnod iaith rhwng gwahanol raglenni, ac na fyddai pobl yn disgwyl yr un math o iaith ar y *Newyddion* ac ar raglen bop hwyr yn y nos, er enghraifft. Roedd y Sianel yn ceisio cadw rhyw fath o hafaliad digon anodd yn aml iawn rhwng ceisio cynnal ieithwedd sydd yn dangos Cymraeg yn fodern ond yn safonol a chyfleoedd eraill lle mae'n bosibl i rai pobl ifanc sydd yn dysgu neu sydd efallai'n dod o gartrefi cymysg eu hiaith i deimlo dipyn bach yn ymlacedig.

Cafwyd trafodaeth benodol ar natur yr iaith yn *Pam fi Duw*. Roedd rhai aelodau o'r gynulleidfa yn gefnogol i'r fath o iaith a ddefnyddiwyd os oedd yn golygu ei fod yn denu pobl ifanc a dysgwyr i wyllo. Roedd rhai o'r gynulleidfa yn amau fod plant mewn ysgolion Cymraeg yn siarad yn y modd roedd y plant yn *Pam fi Duw* yn siarad; tra roedd eraill yn credu ei fod yn bortread realistig.

Holwyd a fyddai'n bosibl i gael slotiau cyson rhywle yn amserlen S4C ar gyfer rhaglenni mewn Cymraeg safonol lle gallai dysgwyr fynd atynt. Credwyd y byddai rhaglenni mwy cywir eu hiaith yn rhai poblogaidd. Dywedodd Huw Jones fod S4C yn darparu ar gyfer pobl sy'n dysgu a rhoddwyd fel esiampl y rhaglen *Talk about Welsh* a oedd yn ddrama opera sebon ar gyfer dysgwyr. Er hynny, credwyd bod y pwynt a wnaethpwyd yn un teg a chydnabuwyd efallai fod yna ormod o fwch rhwng y rhaglen ar gyfer dysgwyr a'r rhaglenni Cymraeg rhugl. Roedd hwn yn fater y byddai swyddogion yn mynd yn ôl i dalu sylw iddo unwaith eto.

Cyllido Rhaglenni

Holwyd ynglyn â sut yr oedd S4C wedi ymdopi yn y ddwy/dair blynedd diwethaf â'r sialens o ddarparu tua thair gwaith cymaint o raglenni heb unrhyw godiad mewn cyllid. Atebodd Huw Jones "gyda anhawster". Er hynny, gyda llawer iawn o ymroddiad a chreadigrwydd ar ran y bobl oedd yn darparu rhaglenni ar gyfer S4C yr oedd wedi ymdopi. Roedd hefyd fwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn. Ar y gwasanaeth analog, mae yna tua 36 awr o raglenni Cymraeg; ar y gwasanaeth digidol tua 78. Un o'r elfennau oedd bod cynhyrchwyr oedd eisoes yn darparu rhaglenni ar gyfer y prif wasanaeth (sef, y gwasanaeth analog) yn defnyddio yr un adnoddau er mwyn cynhyrchu oriau ychwanegol i fynd ar deledu digidol. Felly, roedd yr oriau ychwanegol hynny'n gallu bod yn rhatach na'r oriau sylfaenol. Hefyd, roedd yna dipyn go lew o ail ddangos ar y gwasanaeth digidol, gan gynnwys ail-ddangos rhaglenni o'r gorffennol oedd yn werth eu gweld eto a hefyd ail gyfle i wyllo rhaglen o fewn yr un wythnos (a oedd yn cael ei werthfawrogi gan bobl oedd adref ar adegau gwahanol). Roedd yna hefyd rhywfaint o brynu rhaglenni i fewn o wledydd eraill gyda rhywfaint o ail-becynnu. Ar ben hynny, roedd yna rhywfaint o raglenni oedd yn cael eu gwneud ar gyfer digidol yn unig ond ar gost is nag ar gyfer rhaglenni arferol. Oll yn oll felly, yr ateb i'r cwestiwn sylfaenol oedd: "trwy fod yn greadigol".

Holwyd ymhellach ynglyn ag ariannu rhaglenni. Gofynnwyd beth oedd y canran o'r cyllid oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer chwaraeon nawr i gymharu â drama i beth oedd rhyw ddeng mlynedd yn ôl. Y pryder oedd bod drama'n dioddef oherwydd y codiadau sylweddol oedd wedi bod ym mhrisiau hawliau darlledu chwaraeon. Yn enwedig, teimlwyd bod y dramâu unigol (hynny yw, nid cyfresi) wedi mynd ar goll.

Atebodd Elan Closs Stephens fod S4C wedi cadw a chynyddu oriau drama er gwaetha'r sefyllfa gyllidebol. Cydnabuodd er hynny, mai cyfresi drama oedd y rhain gan amlaf yn hytrach na dramâu unigol. Er gwell neu er gwaeth, roedd hwn bellach yn batrwm ar draws teledu ym mhob man, ac nid yn unigryw i Gymru. Fe wnaeth Huw Jones drin â'r mater o gost hawliau chwaraeon gan gadarnhau bod costau hawliau wedi codi. Er hynny, roedd chwaraeon yn bwysig i S4C gyda ymchwil ar y niferoedd o bobl yn gwyllo yn dangos fod chwaraeon nid yn unig yn denu cyfran uchel ond hefyd yn denu cyfran uchel o Gymry Gymraeg.

Targeddu Cynulleidfaedd Ifanc

Holwyd os oedd gan S4C bolisi o wneud mwy o raglenni ar gyfer pobl ifanc; teimlwyd fod pobl ganol oed yn cael ei anghofio gan y Sianel. Atebodd Huw Eirug nad oedd gan S4C y fath bolisi, er hynny, yr oedd yna awydd i ddenu gynulleidfa iau i wyllo S4C. Soniwyd ei fod yn fater o bryder cyn lleied o bobl ifanc mewn cartrefi gyda digidol oedd yn gwyllo S4C Digidol a chredwyd os na fyddai S4C yn gwneud rhywbeth pendant a phositif i wneud hi'n arferiad iddynt wyllo'r Sianel roedd yn mynd i fod yn anoddach i'w denu nhw i wyllo pan fyddant yn hyn. Er hynny, cydnabuodd Huw Eirug ei bod hi hefyd yn bwysig i'r Sianel sicrhau nad oedd yn gelyniaethu carfan o'i gwylwyr.

Eisteddfodau

Gofynnwyd paham nad oedd mwy o raglenni yn cael ei gwneud o'r gweithgareddau - y cyngherddau a'r dramâu - oedd yn mynd ymlaen yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Atebodd Huw Eirug fod S4C, fel yr oedd yn digwydd, wrthi yn trafod gyda'r Eisteddfod i weld beth oedd y posibilrwydd o ddarlledu mwy o'r digwyddiadau tu allan i'r Pafiliwn. Roedd rhai o'r cyngherddau yn broblematig oherwydd yr hawliau oedd ynghlwm ond byddai S4C yn edrych arnynt fesul un i edrych ar eu gwerth. Roedd y Sianel, wrth gwrs, eisoes wedi darlledu'r cyngherdd gyda Bryn Terfel.

Cyfarfod Busnes

Croeso

Rhoddyd croeso cynnes i Alun Davies, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol newydd S4C, i'w gyfarfod cyntaf o'r Awdurdod.

Elusen S4C

Adroddodd y Cadeirydd bod hysbyseb nawr wedi ymddangos yn y wasg yn gwahodd ceisiadau ar gyfer Elusen S4C yn 2001. Roedd cyfarfod i lunio rhestr fer wedi ei drefnu ar gyfer 12 Ionawr a byddai'r cyrff ar y rhestr honno yn cael eu gwahodd i fynychu cyfweliad ar 19 Ionawr.

Cymraes y Flwyddyn

Roedd y gystadleuaeth hon yn mynd o nerth i nerth a bu rhyw fil o bobl yn bresennol ar y noson. Roedd y trefnwyr yn gwerthfawrogi'n fawr gyfraniad *Heno* wrth iddi ddod â'r digwyddiad at sylw'r cyhoedd; yn arbennig, roedd wedi codi'r ymwybyddiaeth yn y Gorllewin a'r Gogledd. Er hynny, mynegwyd peth pryder bod y noson ei hun wedi bod yn unieithog iawn ac wedi mynd gam tuag yn ôl i gymharu â'r flwyddyn cynt. Soniwyd bod y trefnwyr wedi derbyn sylwadau S4C ar y mater hwn ac wedi dangos ewyllys da i wneud rhywbeth ynghylch y mater y flwyddyn nesaf.

Coleg Digidol

Nodwyd bod y Coleg Digidol wedi'i lansio ar 1 Tachwedd. Soniwyd bod y staff yn y Coleg Digidol ac S4C wedi gweithio'n agos iawn a'i gilydd, ac yn teilyngu clod mawr am sicrhau bod pob dim yn barod erbyn y dyddiad penodedig. Soniwyd bod nifer o golegau yn Lloegr bellach wedi cysylltu â'r Coleg Digidol gan ddangos diddordeb yn y patrwm hwn o gydweithio. Roedd yna bellach deimlad fod y Coleg Digidol yn fenter flaengar ac yn wir yr oedd y Cyfarwyddwr wedi mynd allan i'r Eidal i roi cyngor i bobl yno oedd yn dymuno gwneud rhywbeth tebyg.

Adroddiad y Cyfarwyddwr Rhaglenni

Adroddodd y Cyfarwyddwr Rhaglenni ar sut yr oedd ei syniadau am wasanaeth rhaglenni ar gyfer y dyfodol wedi datblygu ers y cyfarfod diwethaf. Soniodd ei fod wedi dechrau mynd o gwmpas y cwmnïau rhaglenni i rannu a thrafod gyda nhw y syniadau a amlinellodd i'r Awdurdod yn y cyfarfod diwethaf. Teimlwyd, beth bynnag fyddai penderfyniadau S4C, roedd y Sianel anad well gwthio ymlaen gyda'i syniadau os nad oedd y cwmnïau annibynnol yn rhannu'r weledigaeth.

Roedd rhaid i strategaeth S4C fod yn ymarferol gan geisio sefydlu sylfaen newydd i ddatblygu ac esblygu arni o 2002 ymlaen i'r amser pan fydd analog yn diffodd. A oedd S4C yn mynd i gynnig sawl cyfle i wylwyr weld ei rhaglenni neu gomisiynu i lenwi amserlen? Ynglwm wrth bolisi o gynnig gwahanol gyfleoedd i wylwyr roedd yn hanfodol i flaenoriaethu. Roedd angen sicrhau bod rhaglenni yn cyfoethogi ac yn cynnig gwerth. Nid gwerth yn ystyr cul y gair, ond gwerth da, cynhwysol, yn yr iaith Gymraeg. Dylai blaenoriaethau'r Sianel gynnwys rhaglenni drama, chwaraeon, dogfen, plant, digwyddiadau megis cyngherddau, nosweithiau thema. Nid oedd hynny yn golygu bod S4C yn rhoi'r gorau i'r *genres* eraill.

Dylai S4C hefyd fabwysiadu athroniaeth fyddai'n ei chaniatáu o bryd i'w gilydd i glirio'i hamserlen i wneud rhaglenni arbennig. I gymryd digwyddiadau diweddar fel esiampl, gellid fod wedi trafod y llifogydd gan gynnig cyngor i bobl oedd wedi eu heffeithio. Roedd yn hanfodol fod S4C yn bachu ar y math yma o gyfle i siarad â'i chynulleidfya'n uniongyrchol a bod y gynulleidfa honno'n gallu siarad yn ôl. Y tueddiad yn y ganrif ddiwethaf oedd i ddarlledwyr siarad at eu cynulleidfa; yn y ganrif hon roedd angen i ddarlledwyr siarad â'r unigolyn gan ganiatáu i'r unigolyn hwnnw/honno siarad yn ôl – byddai sicrhau'r gallu i ryngweithio felly yn hynod bwysig

Diolchwyd yn fawr iawn i'r Cyfarwyddwr am esbonio i'r Aelodau sut yr oedd ei syniadau wedi'u datblygu ers y cyfarfod diwethaf. Mynegwyd cefnogaeth ar ran yr Awdurdod i'r cyfeiriad yr oedd y strategaeth cyffredinol ar gyfer y rownd comisiynu nesaf yn symud.

Cynllun Corfforaethol 2001-03

Cyflwynwyd i'r Awdurdod Gynllun Corfforaethol drafft ar gyfer 2001-03 a gofynnwyd i'r Aelodau'n benodol ystyried strwythur a chynnwys y Cynllun a'r targedau penodol oedd wedi'u clymu i bob un o'r amcanion. Soniwyd hefyd bod yna ymgais i lunio dogfen ar gyfer y tair blynedd nesaf oedd yn fwy strategol ei natur na'r cynllun presennol. Er hynny, y bwriad oedd i sicrhau na fyddai'r targedau mwy manwl a gynhwyswyd yn y ddogfen hynny yn cael eu colli ond eu bod yn cael eu hymgorffori yn y cynlluniau adrannol fyddai'n cael eu cynhyrchu ar wahân. Byddai modd cadw golwg ar y rhain yn ystod y cyflwyniadau rheolaidd roedd penaethiaid adran yn rhoi i'r Awdurdod.

Mynegodd yr Aelodau fodlonrwydd gyda Chynllun Corfforaethol 2001-03 a chytunwyd y dylid ei gyhoeddi ar Safle We S4C, unwaith ei fod wedi cael ei gyflwyno i staff S4C ar ddechrau mis Ionawr 2001.

Adroddiad Gwifren Gwylwyr

Derbyniwyd a thrafodwyd yr adroddiad cyntaf gan y Wifren Gwylwyr i ddod ger bron yr Awdurdod. Cytunwyd bod yr adroddiad hwn yn un ddiddorol a gwerthfawr i'r Aelodau ei dderbyn ac y dylai felly ymddangos ar yr agenda fel eitem safonol o hyn ymlaen.

Nawdd

Cylchredwyd o gwmpas y bwrdd gais gan Ty Ffilm am nawdd gan S4C. Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau bod S4C wedi rhoi nawdd i'r corff hwn dros y tair blynedd diwethaf ac esboniodd natur y cyrsiau roedd Ty Ffilm yn cynnig i bobl. Cytunwyd y dylid rhoi nawdd i Ty Ffilm o £2,000 am y flwyddyn 2000.

Materion Eraill

Yn ogystal, ystyriodd yr Awdurdod y canlynol:

- adroddiad ariannol
- adroddiad y Prif Weithredwr – materion er gwybodaeth
- adroddiad cwynion
- adroddiad ymchwil
- adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol.